OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2018 Rhif 828 (Cy. 167)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 22 (Hen Golwyn) i Gyffordd 23 (Llanddulas), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Gorffennaf 2018* |
| *Yn dod i rym* | *15 Gorffennaf 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 22 (Hen Golwyn) i Gyffordd 23 (Llanddulas), Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 15 Gorffennaf 2018.

---

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2) neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 15 Gorffennaf 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A55 Caer i Fangor.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd y gwaharddiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

---

**(2)** Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 6 Gorffennaf 2018

*Richard Morgan*
Pennaeth Safonau Rheoli Asedau
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

## Gwahardd Cerbydau Dros Dro

1. Y darn cyfan o gerbytffordd tua'r gorllewin yr A55 sy'n ymestyn o ddechrau trwyniad cwrb yr ynys hollti wrth Gyffordd 23 (Llanddulas) hyd at ganolbwynt Cyffordd 22 (Hen Golwyn).

2. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 23 (Llanddulas).

3. Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 22 (Hen Golwyn).

4. Y darn cyfan o gerbytffordd tua'r dwyrain yr A55 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 22 (Hen Golwyn) hyd at ddiwedd trwyniad cwrb yr ynys hollti cyn y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 23 (Llanddulas).

5. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 22 (Hen Golwyn).

6. Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 23 (Llanddulas).